OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1011

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020

## RHAN 4

## Gorfodi

**Troseddau a chosbau**

**18.**—(1) Mae person sydd—

(a) yn torri rheoliad 5(7), 6(6) neu **[**[F1]7(9)**]** ,

(b) heb esgus rhesymol, yn methu â chymryd camau sy'n ofynnol o dan reoliad 5(6), 6(5) neu **[**[F2]7(8)**]** , neu

(c) heb esgus rhesymol, yn torri rheoliad 14(4),

yn cyflawni trosedd.

(2) Mae person sy'n rhwystro, heb esgus rhesymol, unrhyw berson rhag cyflawni swyddogaeth o dan y Rheoliadau hyn yn cyflawni trosedd.

(3) Mae person sydd, heb esgus rhesymol—

(a) yn methu â chydymffurfio â hysbysiad cydymffurfio a roddir gan swyddog gorfodaeth o dan reoliad 16(1), neu

(b) yn torri cyfarwyddyd a roddir gan swyddog gorfodaeth o dan reoliad 16(3)(a), (4)(a) neu (b), (5)(a) neu (6)(a),

yn cyflawni trosedd.

(4) Mae trosedd o dan y Rheoliadau hyn i'w chosbi ar euogfarn ddiannod drwy ddirwy.

(5) Mae adran 24 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984(**1**) yn gymwys mewn perthynas â throsedd o dan y rheoliad hwn fel pe bai'r rhesymau yn is-adran (5) yn cynnwys—

(a) cynnal iechyd y cyhoedd;

(b) cynnal trefn gyhoeddus.

(6) Os profir bod trosedd o dan y Rheoliadau hyn a gyflawnwyd gan gorff corfforaethol—

(a) wedi ei chyflawni â chydsyniad neu ymoddefiad swyddog i'r corff hwnnw, neu

(b) i'w phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ran swyddog o'r fath,

mae'r swyddog (yn ogystal â'r corff corfforedig) yn euog o'r drosedd ac yn agored i gael ei erlyn, i gael achos yn ei erbyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(7) Ym mharagraff (6), ystyr "swyddog", mewn perthynas â chorff corfforedig, yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall i'r corff corfforedig.

(**1**) 1984 p. 60. Amnewidiwyd adran 24 gan adran 110(1) o Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15).

(8) Caniateir i achos am drosedd o dan y Rheoliadau hyn yr honnir ei bod wedi ei chyflawni gan bartneriaeth gael ei ddwyn yn enw'r bartneriaeth yn hytrach nag yn enw unrhyw un neu ragor o'r partneriaid.

(9) Caniateir i achos am drosedd o dan y Rheoliadau hyn yr honnir ei bod wedi ei chyflawni gan gorff anghorfforedig ac eithrio partneriaeth gael ei ddwyn yn enw'r corff yn hytrach nag yn enw unrhyw un neu ragor o'i aelodau ac, at ddibenion unrhyw achos o'r fath, mae unrhyw reolau llys sy'n ymwneud â chyflwyno dogfennau yn cael effaith fel pe bai'r corff hwnnw yn gorff corfforedig.

(10) Mae adran 33 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1925(**2**) ac Atodlen 3 i Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 yn gymwys mewn achos am drosedd a ddygir yn erbyn partneriaeth neu gymdeithas anghorfforedig ac eithrio partneriaeth fel y maent yn gymwys mewn perthynas â chorff corfforedig.

(11) Mae dirwy a osodir ar bartneriaeth ar ei heuogfarnu o drosedd o dan y Rheoliadau hyn i'w thalu o gronfeydd y bartneriaeth.

(12) Mae dirwy a osodir ar gymdeithas anghorfforedig ac eithrio partneriaeth ar ei heuogfarnu o drosedd o dan y Rheoliadau hyn i'w thalu o gronfeydd y gymdeithas.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Gair yn rhl. 18(1)(a) wedi ei amnewid (12.10.2020) gan Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/1100), rhlau. 1, **2(5)(a)**

**F2** Gair yn rhl. 18(1)(b) wedi ei amnewid (12.10.2020) gan Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/1100), rhlau. 1, **2(5)(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 18 mewn grym ar 18.9.2020 am 12.01 a.m., gweler **rhl. 1(3)**

(**2**) 1925 p. 86.

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 04/12/2020.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020, Adran 18.